**GWERTH YR APIAU**

Fel tiwtor iaith, teimlaf ei bod yn holl-bwysig i mi ddysgu iaith arall, a hefyd mynd drwy'r un profiadau â'r dysgwyr.  I'r perwyl hwnnw, ac i gadw'r iaith Iseldireg i fynd, dw i wedi defnyddio amrywiaeth o apiau.

Dechreuais gyda **Babbel**.  Roeddwn i'n teimlo mai hwnnw oedd yr ap gorau i ddysgu iaith.  Mae wedi'i gynllunio'n ofalus i ddatblygu llawer o'r sgiliau perthnasol:  gwrando, darllen ac ysgrifennu.  Mae'n weithredol yn ogystal â goddefol, gan ddisgwyl i'r myfyrwyr fewnbynnu'n gywir a rhedeg y ferf yn hyderus.  Wrth gwrs, does dim modd datblygu sgiliau siarad a chyfathrebu. Roedd hynny'n ddigon i sicrhau fy mod yn ddigon da i fynychu cwrs Mynediad y tro cyntaf i mi fynd i'r Iseldiroedd, yn hytrach na Chyn-Fynediad.

Mi wnes i roi cynnig ar **SaySomethingInDutch**, ond doeddwn i ddim yn hoffi'r dulliau dysgu, oedd yn f'atgoffa o'r labordai iaith yn y saith-degau.

Ers hynny, cyn ac ar ôl i mi fynychu'r ail gwrs yn yr Iseldiroedd, dw i wedi bod yn defnyddio **Memrise** a **Duolingo** yn ffyddlon.  Dw i'n gwybod fel athrawes iaith nad ydynt yn cynnig y ffyrdd gorau o ddysgu, ond o leiaf drwy eu gwneud bob dydd (yn feunyddiol ers dros 600 o ddiwrnodau yn ddi-dôr) dw i'n sicrhau fy mod yn clywed yr iaith ac yn gwneud rhywbeth i gadw'r iaith yn fyw.  Ar ben hynny, gan fod cynifer o ddysgwyr yn defnyddio **Duolingo**, mae'n rhoi syniad da i mi o'r hyn y maent yn ei wneud.

Er hynny, doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn cael budd o'u defnyddio, gan fy mod yn dysgu cyfresi o eiriau di-gyswllt, a brawddegau allan o gyd-destun (ni ddefnyddir y geiriau mewn deialogau) .  Ond dw i wedi dal ati.

Fodd bynnag, un o'r pethau sydd wedi fy nharo wrth fynychu'r cwrs ar-lein ydy bod yr apiau yn dangos eu gwerth.  Mae angen dysgu geirfa bwrpasol ar gyfer pob uned ar yr Ysgol Haf, a dw i wedi darganfod bod gennyf gronfa o eirfa wrth gefn sy'n berthnasol i'r gwersi.  Yn yr un fath, mae fy nghystrawennau'n gymharol gadarn, gan fy mod wedi clywed yr un brawddegau droeon wrth ddefnyddio'r apiau.

